Nodiadau cefndir i athrawon – gwybodaeth ychwanegol Cyfnod Allweddol 4.

Argymhellir bod athrawon yn darllen nodiadau cefndir Cyfnod Allweddol (CA) 3 a CA4 cyn dechrau cyflwyno'r sesiynau hyn. Mae llawer o'r wybodaeth gefndir ddefnyddiol wedi'i chynnwys yn y nodiadau i athrawon CA3 ac nid yw wedi'i hailadrodd yn fanwl. Gellir cyflwyno'r sesiynau CA4 yn set sesiynau sy'n gyflawn ynddi ei hunan neu gellir eu defnyddio yn ddilyniant i sesiynau CA3.

Mae nodiadau cefndir CA3 yn cynnwys gwybodaeth fanwl ynghylch Gweithredu ar y Cyd gan Fenywod (WCA), yr ymchwil a wnaed gan Oxfam, gwybodaeth am y data a ddefnyddiwyd a gwybodaeth benodol am yr ymchwil yn Ethiopia.

Cafodd ymchwil Oxfam ei wneud mewn tair gwlad sef Ethiopia, Mali a Tanzania. Canolbwyntiodd sesiynau CA3 ar Ethiopia. Mae sesiynau CA4 yn edrych yn fwy manwl ar yr ymchwil ac yn cynnwys gwybodaeth am Ethiopia a Mali.

Mali

Cefndir

Ym Mali y mae un o'r ardaloedd mwyaf o goed shea yn 'llain shea' gorllewin a chanolbarth Affrica. Mae'n bosibl fod adnoddau shea'r wlad gymaint â 408.6 miliwn o goed. Mae'r cynhyrchiad cenedlaethol tua 80,000 o dunelli metrig y flwyddyn, o'i gymharu â chynhyrchiad byd-eang blynyddol yr amcangyfrifir ei fod rhwng 610,000 a 650,000 o dunelli metrig. (Y Weinyddiaeth Hybu Menywod, Plant a'r Teulu (MPFEF) (2003) 'Stratégie de reinforcement des capacités des femmes dans la lière de karité au Mali'.)

Mae cynhyrchwyr shea ym Mali wedi tueddu gwerthu cnau shea un ai'n amrwd neu wedi'u prosesu yn fenyn. Dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae cyfleoedd i werthu dramor ac i greu gwerth ychwanegol wedi arwain at gynhyrchu gwell menyn, sy'n gwerthu am bris uwch na'r cynnyrch traddodiadol.

Yn draddodiadol, dim ond ymwneud â thynnu'r menyn yr oedd grwpiau WCA (Gweithredu ar y Cyd gan Fenywod), ond yn rhan o'r datblygiadau newydd hyn mewn creu cynnyrch shea a'i farchnata, mae grwpiau bellach wrthi'n prynu'r cnewyll, yn tynnu'r menyn a'i gadw, yn trin y cynnyrch terfynol a'i werthu. Cafodd ymchwil yr WCA ei wneud yn ardal Koutiala yn Sikasso, sef rhanbarth yn ne-ddwyrain y wlad ger y ffin â Burkina Faso. Mae'r amodau amgylcheddol yn yr ardal hon yn ffafriol iawn i dwf coed shea, ac mae cynhyrchu menyn shea yn weithgaredd

Newid ar sail bersonol, ar sail aelwyd ac ar sail cymuned

Yn 2012, roedd y menywod yn y grwpiau WCA a holwyd yn ennill tua $12 y flwyddyn yn fwy drwy werthu menyn traddodiadol nag yr oedd y cynhyrchwyr cyfatebol nad oeddent yn aelodau. Ynghyd â gwerthu'r menyn shea gwell, roedd hyn yn golygu bod yr enillion cynhyrchion shea 81 y cant yn fwy nag enillion y menywod nad oeddent mewn grwpiau, sef $20 y flwyddyn o gynnydd yn yr elw. Gall trosglwyddo'r technegau gwell o ran cynhyrchu'r menyn shea, ei brosesu a'i farchnata, i weithgareddau creu incwm eraill aelodau WCA olygu bod y rheini hefyd yn talu'n well.
At ei gilydd, ar draws y 27 grŵp a holwyd, roedd gan y menywod a oedd yn aelodau gryn dipyn mwy o rym na'r rhai nad oeddent yn aelodau o ran y grym i benderfynu ynghylch incymau amaethyddol, defnyddio credyd a rhyddid i symud. Roedd y newidiadau hyn, ynghyd â gallu cynyddol y menywod i gyfrannu at gostau'r aelwyd, yn dylanwadu'n gadarnhaol ar berthynas gwŷr â gwragedd, i'r graddau fod gan y menywod yn y grwpiau hyn fwy o ddylanwad ar yr aelwyd. Eglurodd Llywydd menter gydweithredol y cynhyrchwyr cotwm yn N'Gountjina fod y dynion yn y pentref bellach yn credu

".. bod menywod o gymorth amhrisiadwy i ddynion wrth reoli'r aelwyd. Felly dylid ymgynghori â hi bob amser ynghylch penderfyniadau pwysig yn ymwneud â goroesiad y teulu a'i ddyfodol." (cyfieithiad o ddyfyniad)

Cafodd y detholiad hwn ei addasu o ddogfen Oxfam sef *Women's collective action in the shea sector in Mali Transformational change for women and their communities. Improving gender relations through women's collective action.* Gellir cael rhagor o wybodaeth yma: <http://policy-practice.oxfam.org.uk/publications/womens-collective-action-in-the-shea-sector-in-mali-275772>

Sesiwn 1: Cyflwyno'r cefndir / Graffiau Gwasgariad

Mae rhagor o wybodaeth am yr ymchwil i'w gael yn y wybodaeth gefndir am sesiynau CA3 ac yn y deunydd a gynhyrchwyd ar gyfer Sesiwn 1 CA3.

Gweithgaredd y Cwis Cyflym: Gallai hwn ysgogi cryn drafodaeth ar gydraddoldeb cyfoeth a chyflogaeth. Mae'r wybodaeth ar gyfer y cwis hwn i'w chael yn y mynegai Datblygiad Dynol http://hdr.undp.org/en/2015-report Gall edrych ar yr ystadegau ynghylch y Deyrnas Unedig neu ynghylch y naill neu'r llall o'r gwledydd ymchwil (Ethiopia a Mali) fod o ddiddordeb i'r dysgwyr. Mae gwybodaeth ddefnyddiol am y rhywiau, ac yn benodol am Roi Grym Economaidd i Fenywod, i'w chael ar wefan Oxfam http://policy-practice.oxfam.org.uk/our-work/gender-justice/womens-economic-empowerment

Mae'r data a ddefnyddir yn y sesiwn hon yn dod yn bennaf o Ethiopia, a chyflwynir peth gwybodaeth o wlad Mali. Yn sesiwn 2 CA4, bydd y dysgwyr yn cael cyflwyniad manylach ynghylch Mali ac ynghylch creu cynnyrch shea.

Sesiwn 2: Graffiau Amlder Cronnus

Yng ngwybodaeth gefndir sesiynau CA3 ac yn y deunydd a gynhyrchwyd ar gyfer Sesiwn 1 CA3 a Sesiwn 2 CA3 ceir rhagor o wybodaeth am WCA (Gweithredu ar y Cyd gan Fenywod).

Yng nghynllun y wers ceir gwybodaeth ategol ynghylch y cwestiynau ar sleid 29.

Sesiwn 3: Siartiau Cylch / Histogramau

Siartiau cylch: Dangos y defnydd a wneir o siartiau cylch a'r cyfyngiadau ar y defnydd hwnnw yw nod y gweithgaredd cyntaf a hynny gan ddefnyddio data statws priodasol. Tynnwch sylw'r dysgwyr at y ffaith nad yw o reidrwydd yn ddilys tybio tueddiadau cenedlaethol ar sail ystadegau lleol. Felly, er y gallai rhai o'r data a ddefnyddir yn y siartiau cylch gydberthyn i ddata rhanbarthol neu genedlaethol mwy cyffredinol ynghylch Mali ac Ethiopia, mae'r sampl gymharol fach yn golygu y byddai angen i'r dysgwyr edrych ar setiau data mwy er mwyn dod i gasgliadau ystyrlon ynghylch y gwledydd yn eu cyfanrwydd.

Hefyd gallai'r gweithgaredd hwn arwain at drafodaethau diddorol ymysg y dosbarth ar sut olwg allai fod ar siartiau cylch tebyg ynghylch Cymru a Lloegr a sut y gallai'r rhain gydberthyn i'r Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd. Efallai yr hoffech edrych ymlaen llaw ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i gael data ynghylch Cymru a Lloegr. https://cy.ons.gov.uk/ Eto mae'n dda o beth atgoffa'r dysgwyr fod y siartiau cylch a ddefnyddir yn y sesiwn hon ynghylch un grŵp bach o fenywod ac nad ydynt yn ddarlun manwl gywir o'r gymuned/wlad gyfan.

Atgoffwch y dysgwyr, er bod nifer uwch o wragedd gweddw yn yr astudiaeth WCA, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod nifer uwch o wragedd gweddw yn y wlad yn ei chyfanrwydd. Mae gwragedd gweddw yn fwy tebygol o fod yn gysylltiedig â grwpiau WCA oherwydd eu bod yn aml yn unig rieni a bod arnynt angen mwy o incwm yn absenoldeb cymorth ariannol gŵr. Gallai hyn gyfrif am y nifer uwch na'r cyfartaledd o wragedd gweddw ymysg y grwpiau WCA.

Mae'n werth archwilio gyda'ch dysgwyr yr amrywiaeth o resymau posibl dros y nifer uwch o wragedd gweddw yng ngrŵp Mali o'i gymharu â'r nifer yng ngrŵp Ethiopia. Ystyried ac archwilio'r dewisiadau gwahanol yw rôl ystadegwyr pan fyddant yn cymharu setiau data ac yn dod i gasgliadau.

Er enghraifft, gallai'r ffaith fod dynion yn Ethiopia yn marw'n iau, neu eu bod yn priodi'n iau, fod yn ddau eglurhad syml dros y nifer uwch o wragedd gweddw yn Mail. Eglurhad posibl arall yw bod y cyfraddau marwolaethau plant yn dylanwadu'n fawr ar hyn, a hynny oherwydd bod disgwyliad oes yn cael ei gyfrifo ar sail cyfartaledd yr oedran y bydd pobl yn marw. Os yw'r gyfradd marwolaethau plant yn uchel, bydd hyn yn gostwng y cyfartaledd disgwyliad oes yn genedlaethol. Nid yw'r cyfartaledd disgwyliad oes yn dweud wrthym felly pa mor hir y mae rhywun yn byw ar ôl goroesi i oed priodi. Felly yn yr achos hwn, nid yw'n dweud wrthym pa mor hir y bydd dyn ifanc ym Mali neu yn Ethiopia yn byw ar ôl iddo briodi. Byddai angen i ystadegwyr wneud rhagor o ymchwil i gael darlun cliriach o'r eglurhad mwyaf priodol.

Yn rhan o'r drafodaeth ar gyfyngiadau defnyddio siartiau cylch, mae'n werth nodi hefyd y gall fod yn anodd iawn i bobl sy'n ddall i liwiau eu dehongli.

Histogramau: Gweler nodiadau cefndir CA3 i gael gwybodaeth ychwanegol am histogramau.

Gweithgaredd crynhoi: Atgrynhoi'r gwersi a ddysgwyd drwy'r tair sesiwn yw nod y gweithgaredd hwn, ynghyd ag ysgogi cwestiynau a thrafodaeth ymysg y dysgwyr. Ceir isod enghraifft o sut y gallech grwpio'r cardiau. Nid oes strwythurau nac atebion gosod ar gyfer y sesiwn hon a dylid ei defnyddio yn gyfle i gyfnerthu dysgu'r tair sesiwn ac ehangu ar hynny. Byddai hefyd yn syniad da atgoffa'r dysgwyr am gyd-destun y data, ac argraffu neu arddangos rhai o luniau a phenawdau'r prosiectau ymchwil ynghylch Mali ac Ethiopia.



Partneriaid y prosiect

Think Global
Learning for a just and sustainable world

Think Global

Mae Think Global yn elusen addysg sy'n helpu pobl i ddeall materion byd-eang. Rydym yn sefyll dros fyd mwy cyfiawn a chynaliadwy. Rydym yn credu y mwyaf o bobl sy'n deall materion byd-eang, megis tlodi a hawliau dynol, y mwyaf tebygol y maent o wneud penderfyniadau gwell yn eu bywydau personol a phroffesiynol.

Gall athrawon ymuno â Rhwydwaith Ysgolion Think Global - www.globaldimension.org.uk - a derbyn diweddariadau bob hanner tymor ar adnoddau a digwyddiadau ar gyfer addysgu am faterion byd-eang, ynghyd â phecynnau gweithgaredd a syniadau y gallwch eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth.

www.think-global.org.uk

OXFAM

Oxfam UK

Mae Oxfam yn fudiad byd-eang o filiynau o bobl sy'n rhannu'r gred, mewn byd sy'n llawn o adnoddau, nid yw tlodi yn anochel. Mewn dim ond 15 mlynedd, mae tlodi eithafol wedi cael ei haneru. 15 mlynedd yn rhagor a gallwn ddod â'r tlodi hwn i ben am byth.

I ledaenu'r newid hwnnw a sicrhau ei fod yn para, mae angen atebion gwleidyddol hefyd i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi a chreu cymdeithasau lle gall unigolion grymus ffynnu. Byddwn bob amser yn gweithredu, byddwn yn lleisio'n barn, ac ni fyddwn yn byw gyda thlodi.
www.oxfam.org.uk

Mathematical Association

Mae'r MA yn cael ei redeg gan aelodau ar gyfer aelodau o'i bencadlys yng Nghaerlŷr a chaiff ei reoli gan Gyngor o tua 19 o aelodau'r MA. Ond mae calon yr MA yn ei gyhoeddiadau, ei bwyllgorau a'i is-bwyllgorau, a'i weithgareddau eraill, sy'n cynnig cyfle amhrisiadwy i athrawon sydd â diddordeb i weithio gyda'i gilydd ar bynciau o ddiddordeb cyffredin - gwaith sydd yn aml yn arwain at gyhoeddiadau, adnoddau neu ddogfennau trafod ar gyfer y gymuned ehangach.
www.ma.org.uk/history

Mathematics in Education and Industry

Mae Mathematics in Education and Industry (MEI) yn elusen ac yn sefydliad aelodaeth. Mae'n gorff datblygu cwricwlwm annibynnol ar gyfer mathemateg.

Mae MEI yn cynnig i athrawon yr holl fanylebau TGAU, Mathemateg Graidd a Safon Uwch ystod o gyrsiau datblygiad proffesiynol parhaus, yn darparu hyfforddiant arbenigol ar gyfer myfyrwyr ac yn gweithio gyda'r diwydiant i wella sgiliau mathemategol yn y gweithle. Mae MEI hefyd yn arloesi datblygu adnoddau dysgu ac addysgu arloesol, gan gynnwys deunyddiau ar-lein helaeth i gefnogi'r holl brif feysydd llafur arholi.
www.mei.org.uk

Gyda diolch i ...
Yr holl ysgolion ac athrawon a helpodd i dreialu'r adnoddau hyn. Yn benodol:
Adran Ddaearyddiaeth Ysgol Ramadeg Torquay i Ferched.

Darparwyd cyllid ar gyfer y prosiect hwn gan Sefydliad Nuffield

Mae Sefydliad Nuffield yn ymddiriedolaeth elusennol waddoledig sy'n anelu at wella lles cymdeithasol yn ei ystyr ehangaf. Mae'n ariannu ymchwil ac arloesedd ym maes polisi cymdeithasol ac addysg, ac yn gweithio i feithrin gallu mewn ymchwil y gwyddorau cymdeithasol, gwyddoniaeth ac addysg. Er bod y prosiect hwn wedi'i ariannu gan Sefydliad Nuffield, safbwyntiau awduron ac nid o reidrwydd y Sefydliad yw'r rheini a fynegir. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.nuffieldfoundation.org